**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (ALLT DINAS, BETWS-Y-COED, BWRDEISTREF SIROL CONWY) (TERFYN CYFLYMDER 40 MYA) 202-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adran 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd cyflwyno terfyn cyflymder 40 mya ar y darn o gefnffordd yr A5 o'r enw Allt Dinas, i'r de o Fetws-y-coed, Conwy, sy'n ymestyn o bwynt 97 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r A470 i Ddolwyddelan hyd at bwynt 1,019 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4406 i Benmachno.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 16 Mawrth 2022 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn arfaethedig, plan a Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn rhad ac am ddim, yn Llyfrgell Llanrwst, Plas yn Dre, Ffordd yr Orsaf, Llanrwst LL26 0DF. Gellir gweld y dogfennau hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim oddi wrth y Gangen Orchmynion yn y cyfeiriad isod, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1502418.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau, gan nodi ar ba sail y'u gwneir a chan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1502418, drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu'n ysgrifenedig i'r Gangen Orchmynion yn y cyfeiriad isod erbyn 6 Ebrill 2022.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi hyn pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth. Bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu ac, os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

**Gellir gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn, Plan a Datganiad o'r Rhesymau ar wefan Llywodraeth Cymru ar**

**THE A5 TRUNK ROAD (ALLT DINAS, BETWS-Y-COED, CONWY COUNTY BOROUGH) (40 MPH SPEED LIMIT) ORDER 202-**

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under section 84(1)(a) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to introduce a 40 mph speed limit on the length of the A5 trunk road known as Allt Dinas, south of Betws-y-coed, Conwy that extends from a point 97 metres north of the centre-point of its junction with the A470 to Dolwyddelan to a point 1,019 metres south-east of the centre-point of its junction with the B4406 to Penmachno.

During a period of 21 days from 16 March 2022 a copy of this Notice, the proposed Order, plan and Statement of Reasons for making the Order may be inspected, free of charge, at Llanrwst Library, Plas yn Dre, Station Road, Llanrwst LL26 0DF. The documents can also be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or obtained free of charge from Orders Branch at the address below, quoting reference number qA1502418.

Objections, specifying the grounds on which they are made and quoting reference number qA1502418, must be sent by e-mail to TransportOrdersBranch@gov.wales or in writing to Orders Branch at the address below by 6 April 2022.

Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with people and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process we may pass information to them, including information you have provided and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish for personal data to be forwarded to third parties, you should state this when submitting your correspondence. The Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

**A copy of this Notice, the Order, Plan and Statement of Reasons can be viewed on the Welsh Government's website at**

**https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd a/neu eu cael mewn print bras yn rhad ac am ddim drwy ysgrifennu at: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1502418.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**https://gov.wales/road-orders and/or obtained in larger print free of charge by writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ quoting reference number qA1502418.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government